

Astudiaeth achos rhiant a phlentyn mewn Cylch Meithrin (Sir Ddinbych).

Mae'r ffaith fod y cylch meithrin wedi bod ar agor yn yr Hydref ac ers mis Ionawr wedi bod yn wych. Mae wedi bod yn gymaint o straen arnom ni fel rhieni oedd yn gweithio. Yn amlwg roedd gwaith yn dal i gario ymlaen ond roedd y plant adra. Roedd gwybod bod yr ieuengaf yn gallu mynd i'r Cylch yn cynnig ychydig o normalrwydd i ni. "Win Win" i bawb - roedd hi'n cael gweld ei ffrindiau a fi'n cael amser i wneud fy ngwaith.

Mi roedd o'n lleihau'r euogrwydd o ran gwaith ac o ran bod yn rhiant. Mi roedd yn gymaint o help. Wn i ddim be fyddan ni wedi ei wneud fel arall, roedd yn "lifeline" - byddai wedi bod yn gymaint mwy o "struggle" heb y Cylch.

O ran fy mhentyn, roeddwn yn teimlo ei bod wedi ei harbed rhag cael gwybod gormod am Covid - ei bod wedi cael ei gwarchod am ei bod wedi gallu mynd i'r Cylch a chael ychydig o normalrwydd. Roedd yn brysur yn cael gweld ffrindiau a chael hwyl. Ella os fyddai dim ond wedi bod adra, mi fyddai di gorfod bod ar yr iPad a gweld y teledu lawer mwy nac arfer.

O ran ymddygiad, doedd dim llawer o wahaniaeth gan iddi gael mynd i'r Cylch. Pan oedd adra, roedd angen iddi fod yn ddistaw tra roedd y gŵr a fi'n gweithio, a tydi hynna ddim yn normal i blentyn bach. Does gan blant ddim syniad o amser felly ar ôl ychydig o amser mae nhw angen sylw. Mi roedd yn wych fo'r Cylch wedi gallu agor cyn yr ysgolion, mi wnaeth hyn dynnu pwysau anferth oddi ar fy ysgwyddau. Roeddwn yn gallu trefnu cyfarfodydd gwaith wedyn yn ystod y cyfnodau roedd yn y cylch.

Mae wir wedi bod yn "lifeline" trwy drio dal swydd – mae'r Cylch wedi rhoi'r cyfle iddi gael bod yn blentyn a heb feddwl am Covid. Efallai bo mamau wedi teimlo'r pwysau fwy na'r tadau, o ran jyglo popeth, bwyta'n iach cadw'r teulu'n iach. Pan oedd yn ôl yn y Cylch, roeddwn yn gallu cynllunio fy nghyfarfodydd gwaith i ddigwydd tra roedd yn y Cylch. Mi roedd rhywun wedi bod mewn "survival mode" cyn hynny.

O ran cadw'n saff, roedd yn croesi meddwl rhywun a fyddai'n saff yn cymysgu yn y Cylch ond roedd yn fater o falens o leihau'r pwysau arnom fel teulu hefyd, a hefyd gwybod y byddai yn saff yn y Cylch hefyd.

Dwi eisiau diolch yn fawr i Bwyllgor y Cylch am ganiatáu i hyn ddigwydd yn ystod y cyfnod yma a hefyd i'r Mudiad am eu cefnogi. Mae'r pwyllgor wedi gorfod gwneud penderfyniadau mawr a llawer o gyfrifoldeb, ond dwi mor ddiolchgar fo'r Cylch wedi bod ar agor.